HYSBYSIAD PREIFATRWYDD AR GYFER DYSGWYR:

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn nodi sut rydym ni'n defnyddio ac yn diogelu'r wybodaeth a gasglwn i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'ch hawliau o dan Ddeddf Data (Defnydd a Mynediad) 2025.

Mae Deddf Data (Defnydd a Mynediad) 2025 yn ddeddfwriaeth bwysig a dderbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 19 Mehefin 2025 i gyflwyno newidiadau graddol yn y Deyrnas Unedig at 2026. Mae'n moderneiddio rheoliadau data'r Deyrnas Unedig drwy ddiweddaru Deddf Diogelu Data 2018, GDPR y DU, a Rheoliadau PECR 2003 i symleiddio'r broses o gydymffurfio, hyrwyddo arloesedd economaidd, a diogelu hawliau unigolion.

Rydym yn cadw'r hawl i ddiwygio'r datganiad preifatrwydd hwn o bryd i'w gilydd. Dylech wirio'r dudalen hon o bryd i'w gilydd i sicrhau eich bod yn hapus ag unrhyw newidiadau a wneir. Ac eithrio fel yr eglurir yn y datganiad, ni fyddwn yn rhyddhau unrhyw wybodaeth bersonol i drydydd parti o dan unrhyw amgylchiadau oni bai eich bod wedi rhoi caniatâd penodol i ni wneud hynny, neu os oes rhaid i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith.

I gael rhagor o wybodaeth am Ddiogelu Data, darllenwch ein Polisi Diogelu Data.

CASGLU DATA - Y WYBODAETH A GASGLWN GENNYCH:

Byddwn ond yn gofyn am y wybodaeth sydd ei hangen arnom i gyflawni natur eich cysylltiad â'r Grŵp Gall y wybodaeth hon gynnwys y canlynol:

- enw
- manylion cyswllt, gan gynnwys cyfeiriad, cyfeiriad e-bost a rhifau ffôn, yn ogystal â rhifau cyswllt y perthynas agosaf a manylion cyswllt brys, llun at ddibenion adnabod.
- gwybodaeth ddemograffig fel cod post a sefydliadau addysgol blaenorol.
- dewisiadau a diddordebau.
- data personol a sensitif sydd ei angen arnom ni, MEDR, Llywodraeth Cymru a chyrff eraill er mwyn cyflawni ein rhwymedigaethau o ran darparu addysg a chymorth dysgu megis rhyw, ethnigrwydd, iaith, cenedligrwydd, gwlad geni, manylion pasbort, rhif yswiriant gwladol, cymwysterau academaidd blaenorol, anghenion cymorth dysgu, iechyd a llesiant, cofnodion sy'n ymwneud â chamau disgyblu a manylion euogfarnau troseddol heb eu disbyddu.
- gwybodaeth am bresenoldeb (megis sesiynau a fynychwyd, nifer yr absenoldebau a rhesymau absenoldeb)
- cesglir unrhyw wybodaeth arall a ddarparwyd gennych mewn cyfarfodydd, tiwtorialau, sesiynau a addysgir a rhai anffurfiol er mwyn ffurfio eich cofnod dysgu.
- gwybodaeth sy'n cael ei chasglu ar systemau diogelwch, gan gynnwys Teledu Cylch Cyfyng ("CCTV").
- mae'r Grŵp yn cofnodi gwybodaeth ar logiau gweinydd o'ch porwr, gan gynnwys eich cyfeiriad IP a'r tudalen(nau) y gwnaethoch ofyn amdanynt.

DEFNYDDIO DATA - YR HYN A WNAWN GYDA'CH GWYBODAETH BERSONOL:

Defnyddiwn eich gwybodaeth yn y ffyrdd canlynol:

- at ddibenion gweinyddu
- i ddarparu'r gwasanaethau, y cynhyrchion neu'r wybodaeth rydych chi wedi gofyn amdanyn nhw.
- wrth gyflawni'r uchod, byddwn yn rhannu eich gwybodaeth gyda'n darparwyr gwasanaeth, sefydliadau ac asiantaethau cysylltiedig.
- o bryd i'w gilydd, gallwn hefyd ddefnyddio eich gwybodaeth i gysylltu â chi at ddibenion ymchwil marchnad. Gallwn gysylltu â chi drwy e-bost, ffôn neu bost. Gallwn ddefnyddio'r wybodaeth i addasu'r wefan yn ôl eich diddordebau.
- i ddatgelu eich gwybodaeth i bartïon eraill, os yw'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i ni wneud a/neu mewn cysylltiad ag unrhyw achosion cyfreithiol cyfredol neu yn y dyfodol.

Dylid nodi nad ydym yn datgelu eich gwybodaeth i drydydd partïon ac eithrio fel y nodir yn y polisi hwn. Ond cofiwch oherwydd mai ni sy'n dod o hyd i rai o'r cyrsiau a gymerwch, a'u bod yn cael eu darparu drwy systemau gweithredu eraill, efallai y bydd angen i ni rannu rhai manylion er mwyn rhoi mynediad i chi i'r cyrsiau a'r gwasanaethau hyn.

Addysg a ariennir gan MEDR (rheoleiddiwr y sector) a dysgu a gefnogir gan yr UE:

P'un ag ydych chi'n dilyn rhaglen ddysgu a gefnogir gan MEDR neu'n uniongyrchol, mae gennym ni rwymedigaeth gyfreithiol i rannu eich gwybodaeth gyda MEDR fel rhan o'r rhaglen hon. MEDR fydd y rheolwr data ar gyfer y wybodaeth bersonol y mae'n ei derbyn a bydd yn defnyddio'r data hwn i gyflawni ei dasgau cyhoeddus wrth weinyddu a monitro ei gronfeydd. Mae manylion llawn Hysbysiad Preifatrwydd MEDR ar gael yma: https://www.medr.cymru/wp-content/uploads/2026/04/LLWR-Privacy-Notice-2026-English.pdf

Addysg Uwch:

Os ydych chi'n dilyn rhaglen Addysg Uwch, bydd rhywfaint o'ch gwybodaeth yn cael ei rhannu ag Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA). HESA yw'r asiantaeth swyddogol ar gyfer casglu, dadansoddi a lledaenu gwybodaeth feintiol am addysg uwch (AU) yn y DU. Mae rhagor o fanylion am sut caiff eich gwybodaeth ei phrosesu ar gael gan HESA. Yn ogystal, byddwn yn rhannu eich data gyda thîm Addysg Uwch MEDR (HEFCW gynt).

Cymorth Ariannol ar gyfer eich Cwrs:

Os ydych chi'n hawlio cymorth ariannol ar gyfer eich cwrs, bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu â Chyllid Myfyrwyr Cymru a MEDR. Mae rhagor o fanylion am sut caiff eich gwybodaeth ei phrosesu ar gael gan HESA.

Cadw Gwybodaeth a Gasglwyd:

Ac eithrio lle caniateir neu pan fo'n ofynnol o dan ofynion rheoleiddio neu o dan y gyfraith berthnasol, gallwn gadw eich gwybodaeth bersonol am gyn hired ag y credwn bo angen i fodloni'r dibenion y casglwyd y wybodaeth bersonol ar eu cyfer (gan gynnwys at ddiben bodloni unrhyw ymrwymiadau neu ofynion cyfreithiol, cyfrifyddu neu adrodd eraill).

EICH CYDSYNIAD - YR HYN Y RYDYCH YN CYTUNO IDDO:

Drwy roi eich data i ni, rydych chi'n cydsynio i'r canlynol:

- I ni gasglu a defnyddio unrhyw wybodaeth a roddwch i ni'n unol â'r dibenion uchod a'r datganiad preifatrwydd hwn.
- Y gallwn ddatgelu eich gwybodaeth bersonol i unrhyw un o'n gweithwyr, swyddogion, yswirwyr, cynghorwyr proffesiynol, asiantau a chyflenwyr fel bo angen i gyflawni'r dibenion yn y polisi hwn.
- Gallwn ddatgelu eich gwybodaeth bersonol lle mae'n gyfreithiol ofynnol i ni wneud a / neu ar gyfer unrhyw achos llys cyfredol neu yn y dyfodol.
- Os bydd angen i ni drosglwyddo eich data rhwng gwledydd nad oes ganddynt yr un lefel o ddiogelu data â'r DU, byddwn yn sicrhau y gwarchodir eich gwybodaeth.

EICH HAWL I GAEL GWELD EICH GWYBODAETH

Mae gennych hawl i ofyn am gopi o'r wybodaeth sydd gennym amdanoch chi (y gallwn godi ffi weinyddol fechan amdani) ac i gael cywiro unrhyw anghywirdebau yn eich gwybodaeth. Os hoffech gopi o'r wybodaeth a gedwir amdanoch, anfonwch e-bost i **data@gllm.ac.uk**

CWCIS:

Mae ein tudalennau gwe'n defnyddio "cwcis". Ffeil fach o lythyrau a rhifau yw cwci a osodir ar eich cyfrifiadur neu ddyfais symudol, os cytunwch. Mae'r cwcis hyn yn gadael i ni wahaniaethu rhyngoch chi a defnyddwyr eraill ein gwefan, sy'n ein helpu i roi profiad da i chi pan fyddwch yn pori drwy ein gwefan ac yn ein galluogi i wella ein gwefan. Am ragor o fanylion ynghylch y cwcis a ddefnyddiwn, gweler ein datganiad ar ddefnyddio cwcis.

DOLENNI I WEFANNAU ERAILL

Gall ein gwefan gynnwys dolenni i wefannau eraill a allai fod o ddiddordeb. Fodd bynnag, unwaith y byddwch yn clicio ar y dolenni hyn byddwch yn gadael ein gwefan. Felly, ni allwn fod yn gyfrifol am ddiogelwch na phreifatrwydd unrhyw wybodaeth a roddwch wrth ymweld ag unrhyw wefan o'r fath nad yw'r datganiad preifatrwydd yn berthnasol iddynt. Dylech fod yn ofalus a chwilio am y datganiad preifatrwydd sy'n berthnasol i'r wefan dan sylw.

DIOGELU GWYBODAETH

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod eich gwybodaeth yn ddiogel. Er mwyn atal mynediad neu ddatgeliad diawdurdod, rydym wedi rhoi gweithdrefnau ffisegol, electronig a rheolaethol addas ar waith i ddiogelu'r wybodaeth a gasglwn amdanoch chi.

Mae popeth a brynwch ar ein gwefan neu yn unrhyw un o'n campysau'n bryniant diogel. Mae hyn yn golygu ei bod yn ddiogel i chi roi gwybodaeth sensitif i ni, fel rhif eich cerdyn credyd er mwyn prosesu trafodiad, wrth gofrestru ar gyfer unrhyw un o'n cyrsiau.

CWYNION:

Datrys Pryderon:

Os oes gennych gwestiynau neu bryderon ynghylch y ffordd yr ymdrinnir â'ch gwybodaeth bersonol, cysylltwch â data@gllm.ac.uk. Neu, gallwch roi gwybod am bryderon neu gwynion. Mae'r manylion ar gael ar wefan y Grŵp. Yn unol ag Egwyddorion Deddf Data (Defnydd a Mynediad), mae Grŵp Llandrillo Menai wedi ymrwymo i ddatrys cwynion neu bryderon a allai fod gennych ynghylch preifatrwydd neu sut mae eich gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio (cyfeiriwch at yr adran Ceisiadau i Weld neu Gywiro Gwybodaeth a'r adran Datrys Pryderon yn y Polisi Preifatrwydd hwn).

Os na chaiff eich cwyn ei datrys yn uniongyrchol yn foddhaol gennym ni, gallwch gysylltu â'r darparwr datrys anghydfodau annibynnol yn ico.org.uk.

COFRESTRIAD DIOGELU DATA:

Rydym wedi cofrestru fel rheolwr data gyda Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth y DU a'n rhif cofrestru diogelu data yw Z6977730.

CYSYLLTWCH:

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am ein polisi preifatrwydd neu bolisi cwcis, cysylltwch â data@gllm.ac.uk.